Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Briffiau 7 Munud ar gyfer Cwsg Diogel: Amgylchedd Diogel




## 1 Cefndir

Mae gweithwyr proffesiynol fel arfer yn cyfeirio at farwolaeth babi yn sydyn ac annisgwyl fel ‘marwolaeth sydyn ac annisgwyl ymysg babandod’ (SUDI) neu ‘farwolaeth sydyn annisgwyl yn ystod plentyndod’ (SUDC). Er nad oes unrhyw esboniadau pendant am rai o’r marwolaethau hyn, mae yna dystiolaeth ddibynadwy sy’n cysylltu materion sy’n ymwneud ag amgylchedd cysgu’r babi a risg uwch o SUDI.

## 2 Pam ei fod yn bwysig

Mae hwn yn amser da i atgyfnerthu'r neges ‘cwsg diogel’. Yn ardal Gwent bu 3 SUID mewn cyfnod o 4 wythnos. Er nad oedd yr un o'r marwolaethau yn cael eu hystyried yn amheus, roedd gan 2 nodweddion yn ymwneud â'r agenda cwsg diogel. Mae Gweithwyr Iechyd Proffesiynol o fewn BIAAB yn enwedig Bydwragedd, Ymwelwyr Iechyd, Nyrsys Meithrinfa, Meddygon Teulu, Nyrsys Practis, staff NICU a Nyrsys Pediatrig i gyd mewn sefyllfa berffaith i gyfleu ac ail-gyfleu’r un neges.

## 3 Nod

Lledaenu’r neges ‘cwsg diogel’ o fewn Bwrdd Diogelu Gwent. Rydym am fod yn siŵr bod yr holl Weithwyr Iechyd Proffesiynol sy’n dod i gysylltiad â rhieni babanod a phlant bach yn rhoi cyngor clir, cyfredol a chyson i rieni, mewn perthynas â chwsg mwy diogel, a manteisio ar bob cyfle ac unrhyw gyfle i wneud hynny.

## 4 Ymchwil…

Adroddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Yn 2019 - roedd 170 o SUID; hynny yw tua 4 yr wythnos, gydag 86% o'r rhain yn y 6 mis cyntaf; mae mamau o dan 20 oed bum gwaith yn fwy tebygol o golli babi drwy SUID. Er y bu gostyngiad yn y niferoedd ers 2004, mae'r ffigurau hyn yn sefydlog ac heb newid llawer yn y 4 blynedd diwethaf. Mae dal i fod angen negeseuon cwsg diogel.

## 5 Argymhellion i staff

**Cysondeb!** Rhaid i bob aelod o staff drafod taflen yr Lullaby Trust gyda rhieni, nid yw'n ddigon i’w dosbarthu’n unig. Mae angen i ni hefyd atgyfnerthu'r neges 'cwsg diogel' bob tro y bydd cyswllt. Cynigiwch wiriad diogelwch wrth ymweld â chartrefi am y tro cyntaf. Nodwch gyngor, camau gweithredu a chynllunio bob tro y ceir cyswllt. Er nad yw’n cael ei annog, os yw rhieni’n ystyried cael babi yn y gwely i’w fwydo neu i gysgu, dylid rhoi cyngor ar leihau niwed h.y.

- Yn cynnwys cael gwared ar glustogau a chwiltiau ac ati.
- Yn bendant ni ddylid ei wneud os buont yn defnyddio alcohol neu gyffuriau.

## 6 Neges i Rieni

Babanod i gysgu ar eu pen eu hunain ond yn yr un ystafell wely â'r rhiant neu ofalwr. Peidio â chysgu ar soffas, cadeiriau ac ati gyda babi. Hefyd, peidio â chysgu mewn seddi ceir am gyfnodau hir, a thynnu sylw at y risg o deithiau hir mewn car. Babanod i gysgu mewn crib neu grud fflat sy’n addas, gyda matres briodol. Gosod babi ar ei gefn yn unig gyda'r traed i waelod y crud i atal y pen rhag cael ei orchuddio gan ddillad gwely. Rhieni a gofalwyr i beidio ag ysmygu na chaniatáu i unrhyw un arall ysmygu o amgylch eu babi.

Ymddiriedolaeth Lullaby - Lleihau'r Risg

## 7 Adnoddau eraill i Weithwyr Proffesiynol

Mae adnoddau ychwanegol yn cynnwys fideos neu fwy o fanylion ar gyfer rhai materion i'w cael ar wefan Ymddiriedolaeth Lullaby.

- Cyflwyniad adnoddau fideo
- Ymddiriedolaeth Lullaby - Lleihau'r Risg
- Cwsg Diogel

Unexplained deaths in infancy, England and Wales - Office for National Statistics (ons.gov.uk)